# Hawliadau a chwynion

23 Chwefror 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Ionawr 2016, pan wnaethoch ofyn am:

1. *Manylion am Aelodau'r Cynulliad (ACau) a'u staff sydd wedi adrodd am gael damwain yn y gwaith ar ystadau'r Cynulliad*
2. *Nifer yr Aelodau Cynulliad neu eu staff sy'n hawlio yn erbyn polisi yswiriant yn y Cynulliad*
3. *Pa Aelodau Cynulliad sydd wedi'u cymryd i dribiwnlys cyflogaeth gan eu staff?*
4. *Pa Aelodau Cynulliad sydd wedi cael cwyn wedi'i chofnodi yn eu herbyn, gydag enwau'r Aelodau Cynulliad a'r rheswm dros y gŵyn?*

Gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i chi:

1. *Manylion am Aelodau'r Cynulliad a'u staff sydd wedi adrodd am gael damwain yn y gwaith ar ystadau'r Cynulliad.*

Gallwn gadarnhau bod gennym y wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, mae'n cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998. Byddai datgelu gwybodaeth o'r fath, yn ein barn ni, yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data ac, felly, byddai wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

2. *Nifer yr Aelodau Cynulliad neu eu staff sy'n hawlio yn erbyn polisi yswiriant yn y Cynulliad.*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6465
Email: Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Ers mis Mai 2011, mae saith Aelod Cynulliad neu eu staff wedi hawlio yn erbyn polisi yswiriant yn y Cynulliad.

3. *Pa Aelodau Cynulliad sydd wedi'u cymryd i dribiwnlys cyflogaeth gan eu staff?*

Mae’r wybodaeth hon eisoes wedi’i chyhoeddi ar-lein ac felly mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn weddol hawdd ei chael drwy ddulliau eraill.

4. *Pa Aelodau Cynulliad sydd wedi cael cwyn wedi’i chofnodi yn eu herbyn, gydag enwau’r Aelodau Cynulliad a’r rheswm dros y gŵyn?*

Gofynnwyd am eglurhad pellach ynghylch y cwestiwn hwn, ond bu ichi fethu ag ymateb felly tybiwn eich bod yn cyfeirio at gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad gan aelodau o'r cyhoedd. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn cysylltiad â'r rhan hon o’ch cais.

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad gan y Comisiynydd Safonau, Gerard Elias QC. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ei waith ar ei wefan- http://standardscommissionerwales.org/

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth a geisir

- *Manylion am Aelodau'r Cynulliad a'u staff sydd wedi adrodd am gael damwain yn y gwaith ar ystadau'r Cynulliad.*
- *Nifer yr Aelodau Cynulliad neu eu staff sy'n hawlio yn erbyn polisi yswiriant yn y Cynulliad.*

yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol yn y Ddeddf Diogelu data, sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'n wybodaeth sydd wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data, yn datgan:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met and, in the case of sensitive personal data, at least one of the conditions in Schedule 3 is also met."

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw, a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion ac unrhyw fudd dilys sy'n deillio o'r datgeliad. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth. Ceir crynodeb o'n trafodaethau isod.

Byddai datgelu nifer y damweiniau yr adroddwyd amdanynt a'r hawliadau yswiriant dilynol yn ei gwneud yn hawdd adnabod yr unigolion. Byddai hyn yn wybodaeth am eu bywydau personol, anafiadau corfforol yn benodol a chyflyrau a allai fod yn rhai hirdymor o ganlyniad i ddamwain ac a ystyrir yn wybodaeth bersonol sensitif.
Ni fyddai'r Aelodau Cynulliad na'r Staff Cymorth dan sylw yn disgwyl i wybodaeth sy'n ymwneud â damwain a/neu hawliad yswiriant gael ei ryddhau. Byddai datgelu'r wybodaeth yn cael effaith niweidiol ar yr unigolion

gan nad oedd disgwyl ymlaen llaw y câi eu manylion personol eu rhoi yn y parth cyhoeddus.  Byddai datgelu felly yn ddiangen oherwydd nid yw’r budd o ran datgelu yn gorbwyso’r niwed i’w hawliau, eu rhyddid a’u buddiannau cyfreithlon a byddai, yn ein barn ni, yn cynrychioli ymyrraeth anghyfiawn i’w preifatrwydd.

Oherwydd y nifer fach o unigolion sy’n cael eu dal drwy delerau eich cais nid yw'n bosibl darparu dadansoddiad o'r wybodaeth i’r lefel y gofynnir amdani. Wrth ystyried ystyr data personol, rydym wedi ystyried y gallu i adnabod unigolyn yn seiliedig ar y wybodaeth ei hun a gwybodaeth arall sydd ar gael neu a all ddod ar gael.

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod bod diddordeb dilys mewn gwybod bod cyrff cyhoeddus fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cofnodi gwybodaeth am ddamweiniau ar ystâd y Cynulliad a bod polisïau yswiriant ar waith i ddiogelu'r rhai sy'n gweithio ac yn ymweld â’r ystâd.  Fodd bynnag, yn ein barn ni mae diogelu’r wybodaeth y gofynnir amdani yn gorbwyso unrhyw ddiddordeb cyhoeddus mewn datgelu.

Er gwaethaf fy marn ynghylch sicrhau tegwch, es ymlaen i drafod Atodlen 2 o’r Ddeddf Diogelu Data. Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu i rywun brosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> “The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject.”

Mae’r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Mae’n rhaid bod budd cyhoeddus dilys mewn datgelu’r wybodaeth;
- Mae’n rhaid i’r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- Rhaid sicrhau nad yw’r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon yr Aelodau Cynulliad a’u Staff Cymorth.

Fel y nodwyd uchod, er ein bod yn cydnabod diddordeb y cyhoedd mewn gwybod bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio’n ddoeth a bod y Cynulliad yn cymryd y mater o adrodd am ddamweiniau o ddifrif, nid ydym

yn derbyn bod datgeliad yn angenrheidiol i fodloni budd y cyhoedd. Felly, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2. Oherwydd hynny, nid wyf wedi mynd ymlaen i ystyried Atodlen 3.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF